

## Datganiad newyddion

**Dyddiad:** Dydd Llun, 29 Mehefin 2015

**Teitl:** Cyrff cyllido addysg uwch yn ymgynghori ar ffyrdd newydd o asesu ansawdd

Mae cyrff cyllido addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ymgynghori ar ddulliau newydd o asesu ansawdd er mwyn bodloni anghenion myfyrwyr, y sector addysg uwch (AU), cyflogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol at y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad yn gosod cynigion ar gyfer system asesu ansawdd sy'n:

- sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad academaidd rhagorol; a
- cynnal hygrededd safonau gradd.

Mae'r cynigion yn:

- cydnabod amrywiaeth gynyddol a deinamigrwydd y sector addysg uwch;
- cynnal ei enw da eithriadol yn rhyngwladol; ac
- annog rhagoriaeth ac arloesedd wrth ddysgu ac addysgu drwy fod y darparwr yn gwella'n barhaus, yng nghyd-destun y darparwr.

Mae'r ymgynghoriad yn dynodi'r ail gymal yn yr adolygiad asesu ansawdd a ddechreuodd yn gynharach eleni gyda thrafodaeth eang â'r sector AU a rhanddeiliaid eraill. Mae'n elwa ar y drafodaeth hon, ar ymchwil a gomisiynwyd, ac ar gyngor Grŵp Llywio'r Adolygiad Asesu Ansawdd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymru o blith prifysgolion, cynghorau prifysgol, myfyrwyr a CCAUC.

Mae'r cynigion yn adeiladu ar dair elfen allweddol o drefniadau sicrhau ansawdd sydd eisoes ar waith mewn prifysgolion:

- **symud o sicrwydd ansawdd sy'n cael ei yrru gan brosesau i ddadansoddiad o'r canlyniadau academaidd i fyfyrwyr**, sy'n rhywbeth yr oedd amryw o ymatebwyr i gymal cyntaf yr adolygiad yn dymuno'i weld. Byddai'n adeiladu ar weithgarwch presennol y sefydliadau i yrru gwelliant parhaus yn ei flaen, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau (megis eu cenhadaeth neu gyfansoddiad y corff o fyfyrwyr).
- **system arholi allanol gryfach** i gynnal a diogelu uniondeb y safonau academaidd. Roedd cefnogaeth gref i'r system arholi allanol yng nghymal cyntaf yr adolygiad, ond roedd cydnabyddiaeth o'r angen i foderneiddio a phroffesiynoli ymhellach.
- **rôl gryfach i systemau sicrhau ansawdd y prifysgolion a'r colegau eu hunain**. Byddai cyrff llywodraethol yn cadarnhau bod eu seneddau neu fyrddau academaidd yn adolygu ansawdd profiad academaidd eu myfyrwyr ac – yn achos prifysgolion sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau – safonau cynnyrch academaidd eu myfyrwyr, ac yn rhoi sicrwydd bod cynlluniau gweithredu addas ar waith i wella neu gynnal yr ansawdd yna.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ar gyflwyno dull cryfach o ymdrin â risgiau difrifol i hygredd safonau academaidd neu i ansawdd profiad academaidd myfyrwyr.

Mae'r cynigion yn cadarnhau bod yr holl ddarparwyr yn cadw'r prif gyfrifoldeb dros ansawdd profiad academaidd eu myfyrwyr, a thros ddiogelu safonau yn achos darparwyr sydd â'r pŵer i ddyfarnu eu graddau eu hunain. Maent hefyd yn datgan y bydd dal angen arbenigedd

allanol cadarn a gwybodus. Yn ogystal, mae'r ymgynghoriad yn rhagweld y bydd sefydliadau eraill yn ymwneud ag amryw o'r cynigion.

Dyweddodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: "Rydym yn cydnabod y budd mae system y Deyrnas Unedig o asesu ansawdd wedi ei roi inni hyd yma, a hefyd yr angen i fynd i'r afael â materion penodol Gymreig yng nghyd-destun datganoli. Cynhyrchwyd y ddogfen ymgynghori yn dilyn trafodaethau â grwpiau sydd â diddordeb, ac mae'n bwysicach nag erioed bod prifysgolion yn parhau i ymwneud â'r ymgynghoriad ac yn rhoi eu barn ar y trefniadau asesu ansawdd at y dyfodol ym mhrifysgolion Cymru."

Bydd yr ymgynghoriad yn para o 29 Mehefin hyd 31 Awst yng Nghymru, a hyd ganol mis Medi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## **Diwedd**

### **Cyswllt:**

Emma Rączka, Uwch Reolwr Cyfathrebu

[emma.raczka@hefcw.ac.uk](mailto:emma.raczka@hefcw.ac.uk) 029 2068 2225.

Diwedd

### **Nodiadau**

Am ragor o wybodaeth ewch i:

[www.hefce.ac.uk/reg/review/](http://www.hefce.ac.uk/reg/review/)

## Ynglŷn â CCAUC

Mae **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** – CCAUC – yn dosbarthu adnoddau i addysg uwch (AU) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- cyllid addysgu, cyllid ymchwil a chyllid arall i brifysgolion Cymru
- cyrsiau AU mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn rhoi cymorth i'r system AU yng Nghymru i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae'n achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ysgol.

Mae CCAUC yn rheoleiddio lefelau ffioedd mewn prifysgolion, yn sicrhau bod fframwaith ar waith i asesu ansawdd addysg uwch, ac yn craffu ar berfformiad ariannol, llywodraethol a risg prifysgolion.

[www.ccauc.ac.uk](http://www.ccauc.ac.uk) | [www.hefcw.ac.uk](http://www.hefcw.ac.uk)